

Adroddiad i'r	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad y cyfarfod	28 Ionawr 2022
Aelod Arweiniol/Swyddog	Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd
Awdur yr adroddiad	Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd
Teitl	Rôl Cefnogwr Amrywiaeth

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud â chynnig i greu rôl Cefnogwr Amrywiaeth.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I dderbyn barn ac argymhellion y Pwyllgor ynghylch creu rôl Cefnogwr Amrywiaeth.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried y diffiniad o rôl y Cefnogwr Amrywiaeth yn unol â phenderfyniad y Cyngor ar 7 Rhagfyr 2021.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Fis Tachwedd 2012 penderfynodd y Cyngor y dylid cael pedwar aelod sy'n gefnogwyr. Sef:

- Cefnogwr Pobl Hŷn
- Cefnogwr Atal Digartrefedd
- Cefnogwr Gofalwyr
- Cefnogwr Anableddau Dysgu

- 4.2. Fis Ebrill 2013 derbyniodd y Cyngor argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (a oedd yn cael ei alw bryd hynny'n Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol) na ddylid cael unrhyw aelod gefnogwr ychwanegol ac y dylai'r Aelod Arweiniol perthnasol ymgymryd ag unrhyw rôl 'gefnogi' arall a argymhellir yn genedlaethol neu'n lleol.
- 4.3. Ar 7 Rhagfyr 2021 cytunodd y Cyngor y dylid creu rôl Cefnogwr Pobl Ifanc ac y gall unrhyw aelod o'r Cyngor ymgymryd â'r rôl honno.
- 4.4. Ar 7 Rhagfyr 2021 ystyriodd y Cyngor gynnig i greu rôl Cefnogwr Amrywiaeth. Penderfynodd y Cyngor y byddai adroddiad ar rôl y Cefnogwr Amrywiaeth yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i ddiffinio'r rôl ac y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn.
- 4.5. Mae disgrifiad o'r rôl wedi'i ddrafftio ac ar gael yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn. Mae'r disgrifiad wedi'i ddrafftio i ddilyn yr un ffurf â'r disgrifiadau rôl a fabwysiadwyd ar gyfer y cefnogwyr eraill.
- 4.6. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried cynnwys y disgrifiad rôl drafft hwn, a ddylai'r rôl gael ei llenwi gan yr Aelod Arweiniol perthnasol neu aelod heb fod ar y Cabinet, ac argymhell i'r Cyngor a ddylid mabwysiadu'r disgrifiad rôl fel y'i draftiwyd neu fel y bydd y Pwyllgor yn ei ddiwygio.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i ymgysylltu, herio a, lle bo modd, cael gwared ar rwystrau i gyfleoedd ar gyfer y rhai hynny sydd â nodweddion a ddiogelir.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1 Fe allai costau teithio achlysurol godi os bydd aelod gefnogwr yn mynd i gyfarfodydd neu ddigwyddiadau sy'n berthnasol i'w rôl fel cefnogwr. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol a glustnodir ar gyfer teithio gan aelodau

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor Craffu. Mae'r mater wedi'i gyfeirio'n uniongyrchol i'r Pwyllgor gan y Cyngor.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r adroddiad yn cadarnhau y bydd unrhyw gost fach ychwanegol yn cael ei chynnwys yn y cyllidebau presennol a glustnodwyd ar gyfer teithio gan aelodau. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw ystyriaeth ariannol ehangach.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg y bydd dryswch neu ddyblygu'n digwydd rhwng rôl yr Aelod Gefnogwr a rôl yr Aelod Arweiniol perthnasol os nad y Cefnogwr yw'r Aelod Arweiniol hefyd. Bydd yn bosibl lliniaru hyn drwy fod â disgrifiad rôl clir a pherthynas weithio dda rhwng yr Aelod Arweiniol a'r Cefnogwr.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 a111 Deddf Llywodraeth Leol 1972